# Blog J.E.



Cofnodion

Sylwadau

ARCHIF

Mawrth 2012

Ebrill 2012

CATEGORÏAU

*Mai 18, 2012* — 4 sylw

Mynd â Mali mas i ginio neithiwr i'r Afr Wen i ddathlu deuddeng mlynedd o briodas. Y ferch wrth y til yn methu'n lân â chredu mod i'n gallu gwneud 'syms pen'. Doedd y til ddim yn gweithio ac fe wnes i'r sym yn ddigon didrafferth – '£35 a 30 ceiniog,' dywedais wrthi, ' ac mi fyddwch yn rhoi £4 a 70 ceiniog o newid i fi'. Roedd hi'n gegrwth. Gallech gredu 'mod i wedi dod o blaned arall! 'Rhaid i fi nôl cyfrifiannell,' meddai ac i ffwrdd â hi fel llygoden fach. Pan ddaeth yn ôl dywedodd, ''O'ch chi'n iawn! Mae'n rhaid eich bod yn glyfar ofnadw'!' Braf! Does neb erioed wedi dweud fy mod yn glyfar o'r blaen! Ond y gwir amdani yw bod y bobl ifanc 'ma'n dibynnu gormod ar dechnoleg!

*Mai 22, 2012* — 1 sylw

Sŵn od yn injan y car ac es â fe i'r garej. Ar ôl holi ambell gwestiwn, yn union fel meddyg, y cwbwl wnaeth y mecanic oedd eistedd yn y car, troi'r injan ymlaen, yna'i gyfrifiadur. 'Y cranc shafft,' meddai. 'Dych chi ddim wedi agor y bonet eto,' atebais. 'Dim angen,' meddai yntau, 'dwi wedi dweud wrth y cyfrifiadur am beth i chwilio.' Pwy bynnag wnaeth y gwaith darganfod – y mecanic ynteu'r cyfrifiadur – mae'r sŵn wedi mynd!

*Mai 27, 2012* — 3 sylw

Aethon ni i weld mam yn yr ysbyty yn Nhreforys ddoe. Dwi wedi gwneud y daith o Aberystwyth i Abertawe ddegau o weithiau ers pan oeddwn i'n ddim o beth. Yr anrheg roddodd Mali i fi i ddathlu ein priodas oedd TomTom. I beth ar y ddaear ydw i angen hwnnw? Rydw i'n adnabod y daith fel cefn fy llaw. 'Awn ni ar ffordd wahanol - ar hyd yr arfordir, ac ymweld â llefydd diddorol', meddai Mali, 'a geith Tom ein harwain.' Ac i ffwrdd â ni!

Pan fydden ni'n mynd ar wyliau teulu fel plant, fy ngwaith i a'm chwaer oedd rhoi cyfarwyddiadau i Dad. Fi'n darllen y map a Nia yn chwilio am yr arwyddion. Trwy wneud hynny fe ddysgais lawer am ddaearyddiaeth ac roedd yn rhoi llonydd i Dad ganolbwyntio ar y gyrru. Dyw fy mhlant i ddim yn aflonyddu arna i, chwarae teg, ond beth maen nhw'n ei wneud? Naill ai syllu ar sgrîn y chwaraewr DVD neu ymarfer eu bysedd ar y DS. A phan mae'r batri'n mynd yn fflat mae'n ddiwedd y byd!

Bu bron i Tom achosi ysgariad rhyngddo i a Mari! Mae'n lwcus na chafodd ei daflu trwy'r ffenest pan arweiniodd ei lais metelaidd ni lan rhyw hewl fynydd!

*Mai 28, 2012* — 4 sylw

Nôl yn Aberystwyth erbyn hyn. Cafodd mam sgan MRI ac mae'r peth yn rhyfeddol – mae'n cymryd lluniau o ddarn o'r corff yn union fel torth o fara wedi ei sleisio, ac yna'n gallu dod o hyd i'r drwg. Mae'r ysbyty wedi anfon adroddiadau am mam i ysbytai yn Llundain a Manceinion ac maen nhw wedi gallu dweud wrth Ysbyty Treforys yn union beth i'w wneud. Gwyrthiol! 'Slawer dydd byddai'n rhaid i'r claf aros am wely mewn ysbyty arall a threulio amser yno yn bell o'i deulu. Heddiw mae popeth yn digwydd trwy'r cyfrifiadur, ac mae hynny'n anhygoel! Beth fydden ni'n ei wneud heb dechnoleg?